

Owen Evans,
Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a
Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

22 Mai 2017

Consortia Addysg Rhanbarthol

Annwyl Owen,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Mai 2017. Roedd y sesiwn yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Yn ogystal â'r pwyntiau gweithredu y mae'r Clercod wedi cysylltu â'ch swyddfa yn eu cylch, roedd gan y Pwyllgor nifer o sylwadau/cwestiynau ar ôl y cyfarfod ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru ar gonsortia addysg rhanbarthol (y Consortia):

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cabinet ar 16 Mai ynghylch sefydlu Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol. Byddem yn croesawu esboniad pellach o rôl y Consortia fel rhan o'r academi, yn benodol a fydd yn cynnwys cynghorwyr o'r Consortia ac achrediad ar gyfer cynghorwyr y Consortia. Os na chaiff y Consortia eu cynnwys yn y fath fodd, a oes model mewnol o fewn y Consortia?
- Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod nifer gyfyngedig o gynghorwyr her cymwys a phrofiadol yn y Consortia. O ystyried yr her hon, byddem yn croesawu eich barn ar allu'r Consortia i ddarparu ar lefel strategol a beth y gellir ei wneud i wella nifer y cynghorwyr her o safon.
- O ystyried y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor ei bod yn anodd priodoli canlyniadau i'r Consortia, a bod diffyg eglurder ynghylch eu rôl - a oes gan



y Consortia ryngwyneb cyhoeddus cyffredin, gyda set ddata clir a chyfredol, sy'n hygyrch i'r cyhoedd ledled Cymru, ac os nad oes, pam lai?

- Disgwylir i waith Her Ysgolion Cymru ddod i ben ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2016/17 ac mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddata sy'n dangos canran y gwelliant yn y pynciau TGAU allweddol yn dilyn rhaglen Her Ysgolion Cymru. Byddem hefyd yn hoffi rhagor o wybodaeth am y gwelliant cymharol ym mherfformiad yr ysgolion sy'n rhan o Her Ysgolion Cymru o gymharu â'r rhai nad ydynt yn rhan o Her Ysgolion Cymru, o ran canlyniadau TGAU.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn 19 Mehefin 2017.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is fluid and cursive, with a long horizontal flourish at the end.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

